Skin Care Cymru

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Groen**
**Dydd Mawrth 14 Mawrth, 18.00 – 19.30**
**Ystafelloedd Cynadledda C a D, llawr cyntaf, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**

**Cadeiriwyd gan Nick Ramsay AC**

# Cofnodion y cyfarfod

## Yn bresennol:

1. Nick Ramsay AC, Cadeirydd
2. Mohammad Asghar AC
3. Sarah Wright, Gofal Croen Cymru
4. Julie Peconi, Gofal Croen Cymru
5. Paul Thomas, Cadeirydd Gofal Croen Cymru
6. Jenny Hughes, Dermatolegydd Ymgynghorol a Chadeirydd Fforwm Dermatoleg Cymru Gyfan
7. Rose Bell, Gofal Croen Cymru
8. Girish K Patel, Dermatolegydd ymgynghorol
9. Robert Harmer, Almirall
10. Avad Mughal, Dermatolegydd Ymgynghorol
11. Rebecca Jones, Llywodraeth Cymru
12. Peter Lewis, Llywodraeth Cymru
13. Rachel Abbot, Dermatolegydd Ymgynghorol
14. Gary Jones, Abvie
15. Dominic Urmston, Cymdeithas Soriasis
16. Liz Allen, Cymdeithas Prydain er Cuddliwio'r Croen
17. Ann Davies, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
18. Sharon Hulley, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
19. Sarah Griffiths-Little, Grŵp Cymorth Ichthyosis

## Ymddiheuriadau:

Andrew Davies, PABM; Grant Gail, Abvie; Marian Butchart, Novartis; Henrietta Spalding, Changing Faces; James Partridge, Changing Faces; Beverly Gamble; Richard Logan, PABM; Diana Perry, Cymdeithas Dysplasia Ectodermig; Sarah Sinstead, Almirral; Richard Oliver, hyperhidrosis y DU; Simon Oates, Mind&Skin; Rob Vine, Gofal Croen Cymru; Deb Vine, Gofal Croen Cymru; Sarah Jones, Celegene; Dai Lloyd, AC; Mayda Thomas, Gofal Croen Cymru, Aled Thomas, Gofal Croen Cymru;

## 1. Ymgyrch 'Peidiwch â bod yn Gimwch' #DontBeALobster Gofal Cymru Croen - Paul Thomas, Cadeirydd Gofal Croen Cymru

Oherwydd i'r Cyfarfod Llawn or-redeg ychydig, newidiwyd trefn yr agenda a dechreuodd Paul Thomas y cyfarfod gyda throsolwg byr o ymgyrch #DontBeALobster Gofal Croen Cymru. Roedd yr ymgyrch yn bartneriaeth rhwng Gofal Croen Cymru, ac asiantaeth greadigol WCRS a grŵp cysylltiadau cyhoeddus MHP a roes o'u hamser i'r ymgyrch ar sail pro bono.  Roedd yn ymateb i'r cynnydd 63 y cant yng nghyfraddau canser y croen yng Nghymru mewn 10 mlynedd a'r angen i newid agweddau tuag at atal canser y croen.

Eglurodd Paul i'r ymgyrch ddigwydd yn weddol gyflym oherwydd y ffaith bod ei ferch yn gadael WCRS. Yn yr ymgyrch, 'addaswyd' Baner Cymru a throi'r ddraig yn gimwch i dynnu sylw at y peryglon o beidio ag amddiffyn y croen yng Nghymru. Cytunodd dros 30 o leoedd nodedig yng Nghymru i godi'r faner newydd, ac roedd presenoldeb mawr yn y cyfryngau cymdeithasol ar-lein yn y cyfnod cyn Dydd Gŵyl Dewi pan ddatgelwyd mai Gofal Croen Cymru oedd y tu ôl i'r ymgyrch. Esboniodd Paul i'r ymgyrch gael ymateb eithaf cadarnhaol yn gyffredinol, gyda Nigel Owens, Jonathon Davies a Michael Sheen yn trydar amdani.  Hefyd, cawsom hysbysebu yn gêm rygbi Cymru/Iwerddon, drwy haelioni Undeb Rygbi Cymru.  Yn ogystal, cafodd Nick Ramsay slot 90 eiliad yn y Senedd.

Roedd yr ymateb yn wych; cafwyd sylw 46 o weithiau, gan gynnwys ITV Wales Online, BBC Radio Wales, BT Online ac Yahoo Online. Cyfanswm cyrraedd posibl: 38,229,844.

Mae'r camau nesaf yn cynnwys codi arwyddion cimwch ar draethau Abertawe a'r tu hwnt, gobeithio.
Dywedodd Paul y dylai unrhyw un sydd am gael baner cimwch neu sydd am helpu i hyrwyddo'r ymgyrch gysylltu â Gofal Croen Cymru. ( info@skincarecymru.org).

## 2. Cydlynu gweithgareddau atal canser y croen ledled Cymru.  - Dr Rachel Abbott, Dermatolegydd Ymgynghorol ac Arweinydd Canser y Croen, BIP Caerdydd a'r Fro, Llysgennad Skcin ac Aelod o Gymdeithas Dermatolegwyr Prydain

Rhoes Dr Abbot gyflwyniad byr ar atal canser y croen yng Nghymru. Gellir atal 86 y cant o achosion Melanoma.  Mewn cyferbyniad â hynny: nid oes arian gan Lywodraeth y DU na'r Cynulliad ar gyfer atal canser y croen, ac nid oes sôn am ganser y croen yng Nghynllun Cyflawni Cymru ar gyfer Canser 2016-2020.

Amlinellodd Dr Abbott dair ffordd y gallem atal canser y croen yng Nghymru:

- Gwahardd gwelyau haul yn llwyr
- Iechyd Cyhoeddus Cymru i gydlynu ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o ganser y croen ac i'w atal
- Deddfwriaeth i sicrhau cydymffurfiaeth ar gofnodi ac adrodd data i gofrestrfa ganser y croen

Amlinellodd y sefydliadau niferus sy'n cynnal ymgyrchoedd hyrwyddo amddiffyn rhag yr haul (gan gynnwys Cymdeithas Dermatolegwyr Prydain 'Be Sun Aware Roadshow' ac 'Wythnos Ymwybyddiaeth yr Haul' ym mis Mai ac ymgyrchoedd yr elusennau Skcin a SunSmart). Pwysleisiodd yr angen am weithgareddau atal canser y croen ledled Cymru. Awgrymwyd y gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru ymgymryd â hyn.

Daeth yn Llysgennad Skcin yn ddiweddar a thrafodwyd y posibilrwydd o gynghorau lleol yn cymryd rhan mwy.

**Camau i'w cymryd: JP i sicrhau bod animeiddiad y cimychiaid ar wefan SCC a hefyd i anfon y linc at aelodau'r grŵp trawsbleidiol.**

## 3. Croeso, ymddiheuriadau a cofnodion y cyfarfod blaenorol - Nick Ramsay

Roedd Nick Ramsay wedi ymuno â ni erbyn hyn, gan ymddiheuro am y ffaith bod y Cyfarfod Llawn wedi gor-redeg.  Croesawodd y grŵp ac yna cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd blaenorol.

## 4. Y Rhaglen ar gyfer Gofal wedi'i Gynullio - Dr Peter Lewis, Arweinydd Clinigol Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio.

Cafwyd cyflwyniad gan Dr Peter Lewis, Arweinydd Clinigol y Rhaglen ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio Llywodraeth Cymru.  Cadarnhaodd mai dermatoleg fydd arbenigedd nesaf y Rhaglen. Pwrpas y Rhaglen yw creu gwasanaethau cynaliadwy a phrofiadau gwell i gleifion.  Egwyddorion allweddol y rhaglenni hyn yw eu bod yn drawsnewidiol, yn gytbwys, yn seiliedig ar werth a'u bod yn grymuso'r claf.

Yn ddiweddar, mae'r Rhaglen wedi cyhoeddi cynllun gweithredu drafft i ymgynghori arno, a bydd Bwrdd Dermatoleg Cymru yn cyfarfod am y tro cyntaf ddydd Mercher nesaf fel rhan o'r Rhaglen.

Awgrymwyd y gallai'r grŵp trawsbleidiol ar groen helpu'r Rhaglen o ran cynnwys pobl a deall profiad cleifion.

## 5. Diweddariad/trafodaeth ar wasanaethau dermatoleg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a thrafodaeth ar ymateb y grŵp trawsbleidiol i lythyr Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Lles a Chwaraeon.

Mae'r grŵp trawsbleidiol ar groen wedi gwahodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i'w gyfarfodydd sawl gwaith, ond nid oes neb wedi dod. Cafwyd trafodaeth fer ar bryderon ynghylch darparu gofal yn yr ardal ddaearyddol fawr honno a'r duedd hanesyddol o ran ymgynghorwyr yn gadael. Hefyd, trafodasom y ffaith mai hwn oedd trydydd cyfarfod y grŵp trawsbleidiol ar groen, ac nid yw'r sefyllfa yn Hywel Dda wedi gwella eto ac ni welwyd bod dim wedi cael ei wneud i geisio gwella'r sefyllfa. Ymddengys mai'r neges gan Hywel Dda yw bod popeth yn iawn. Fodd bynnag, nid yw lefel bresennol y gefnogaeth gan PABM yn gynaliadwy.

Teimlwn fod angen mynd ar ôl Vaughan Gething i drefnu cyfarfod neu i drefnu iddo ddod i gyfarfod nesaf y grŵp. Byddwn yn cyflwyno dyddiadau cyfarfodydd nesaf y grŵp ac anfon is-grŵp i geisio cwrdd ag ef i drafod y sefyllfa.

Un awgrym oedd y gellid defnyddio Bwrdd Dermatoleg Cymru fel llwyfan ar gyfer gwneud awgrymiadau i arweinwyr polisi. Hefyd, pam nad yw'r Aelodau rhanbarthol yn cymryd rhan yn y mater hwn?

Gofynnodd Dr Avad Mughal am 18 Week Support, sefydliad a alwyd i mewn i ddarparu clinigau rhestr aros yn Hywel Dda. Gofynnwyd pam y daethpwyd ag asiantaeth allanol i mewn i ddarparu clinigau sy'n costio tair neu bedair gwaith cymaint yr hyn y byddai'n ei gostio pe bai'r bwrdd iechyd ond yn gofyn i ddermatolegwyr lleol wneud y gwaith. Ni wnaed sylw ar y pwynt hwn ac nid oed neb yn bresennol ar ran Hywel Dda i roi ateb.

**Camau i'w cymryd: Croen Gofal Cymru i drefnu, gydag is-grŵp bach ar ran y grŵp trawsbleidiol, gyfarfod â Vaughan Gething gan bwysleisio'r angen am gyfarfod wyneb yn wyneb i drafod y materion allweddol o ran recriwtio a chadw dermatolegwyr yng Nghymru a'r sefyllfa ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.**

## 6. Unrhyw fater arall

Awgrymodd Dominic Urmston y gallai fod yn fuddiol gofyn i'r Athro Christine Bundy ymuno â'r grŵp gan ei bod wedi symud i Gaerdydd yn ddiweddar; dywedodd y byddai'n anfon ei chyfeiriad e-bost atom. Mae'r Athro Bundy yn seicolegydd sy'n arbenigo mewn cleifion sydd â chyflyrau hirdymor ac mae ganddi arbenigedd penodol mewn datblygu gwasanaethau cymorth seicogymdeithasol i bobl sydd â chyflyrau croen.

**Camau i'w cymryd: Dominic i anfon y manylion at Julie, a Julie i gysylltu â'r Athro Bundy yn ei gwahodd i ymuno â'r CPG.**

Diolchodd Nick Ramsay i'r grŵp am eu hamser a'u cyfraniad at drafodaeth fywiog ar y materion sy'n ymwneud â gofal croen yng Nghymru.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ymhen tua 6 mis.